# Memorandwm Cyd-Ddealltwriaeth (MoU) rhwng Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol GIG Cymru (NCCU)

## Cynnwys

Cynnwys ........ 2
Hanes adolygu a chymeradwyo ........ 3
Cyflwyniad ........ 4
Rolau a chyfrifoldebau ........ 4
Egwyddorion cydweithredu ........ 7
Meysydd Gwaith a Blaenoriaethau ar y Cyd ........ 7
Llywodraethu ........ 9
Hyd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn a'i adolygu ........ 10
Atodiad A – Gweithio mewn Partneriaeth ........ 11
Atodiad B – Manylion Cyswllt ........ 11

## Hanes adolygu a chymeradwyo

| | |
|---|---|
| **Fersiwn** | 1.0 |
| **Dyddiad y'i cytunwyd** | 12/10/2017 |
| **Cytunwyd yn ffurfiol gan** | AGIC: Kate Chamberlain<br>NCCU: Stephen Harrhy |
| **Dyddiad adolygu** | Hydref 2019 |
| **Fersiwn** | 2.0 |
| **Dyddiad y'i crëwyd** | 10/10/2019 |
| **Awduron** | AGIC: Joseph Wilton<br>NCCU*:* Dawn Painter a Ross Whitehead |
| **Dyddiad y'i cytunwyd** | |
| **Cytunwyd yn ffurfiol gan** | AGIC: Alun Jones<br>NCCU: Stephen Harrhy |
| **Dyddiad adolygu** | Bob blwyddyn |

## Cyflwyniad

1. Diben y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yw pennu fframwaith er mwyn cefnogi'r gydberthynas waith rhwng Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol GIG Cymru (NCCU).

2. Mae'r gydberthynas waith hon yn rhan o'r gwaith o gynnal system reoleiddio effeithiol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru sy'n hybu diogelwch cleifion a gofal o ansawdd uchel.

3. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn ond yn berthnasol i'r gwaith o reoleiddio gofal iechyd yng Nghymru. Nid yw'n drech na chyfrifoldebau na swyddogaethau statudol AGIC na rhai Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol GIG Cymru (NCCU) ac nid yw'n creu hawliau na rhwymedigaethau cyfreithiol rwymol; ei ddiben yw diffinio'r cytundeb ar y cyd rhwng y ddau sefydliad a nodi camau gweithredu cyffredin.

4. Fel rhan o'r gweithgareddau yr ymgymerir â nhw fel rhan o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, gellir sefydlu cytundebau eraill (er enghraifft, cytundebau rhannu gwybodaeth, neu brotocolau cydweithio). Bydd y cyfryw gytundebau yn bodoli ar wahân i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn.

## Rolau a chyfrifoldebau

### Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

5. AGIC yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru. Mae AGIC yn cyflawni ei swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru ac, er ei bod yn rhan o Lywodraeth Cymru, mae protocolau wedi'u sefydlu i ddiogelu ei hymreolaeth weithredol. Daw prif swyddogaethau a chyfrifoldebau AGIC o'r ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003;
- Deddf Safonau Gofal 2000 (a rheoliadau cysylltiedig);
- Deddf Iechyd Meddwl 1983 a 2007, Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010;
- Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011;
- Rheoliadau Cyffuriau a Reolir (Goruchwylio Rheolaeth a Defnydd) (Cymru) 2008; a
- Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017 a Rheoliadau Diwygio 2018.

6. Mae blaenoriaethau AGIC fel a ganlyn:

- rhoi sicrwydd: cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal;

- hybu gwelliant: annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da; a
- dylanwadu ar bolisi a safonau: defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

7. Rôl graidd AGIC yw adolygu ac arolygu sefydliadau gofal iechyd y GIG a sefydliadau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru er mwyn rhoi sicrwydd annibynnol i gleifion, y cyhoedd ac eraill bod gwasanaethau yn ddiogel ac o ansawdd da. Caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu yn erbyn amrywiaeth o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau cyhoeddedig. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd AGIC yn ceisio nodi a chefnogi gwelliannau i wasanaethau a'r camau y mae angen eu cymryd er mwyn cyflawni hyn. Os bydd angen, bydd AGIC yn cynnal adolygiadau ac ymchwiliadau arbennig, lle yr ymddengys fod methiannau systematig o ran y ffordd y caiff gwasanaethau gofal iechyd eu darparu, er mwyn sicrhau y caiff gwelliannau eu gwneud ac y caiff gwersi eu dysgu'n gyflym.

8. Mae AGIC hefyd yn gyfrifol am gofrestru a rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 sy'n llywodraethu'r gwaith o reoleiddio sefydliadau o'r fath.

**Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol GIG Cymru (NCCU)**

9. Mae Fframweithiau Cydweithredol Cenedlaethol GIG Cymru ar gyfer Ysbytai Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl Oedolion ac Ysbytai Acíwt a Diogelwch Isel CAMHS yn gytundebau a mecanweithiau ffurfiol a ddatblygwyd gan Arweinwyr Comisiynu Cydweithredol GIG Cymru a Phartneriaeth Gwasanaethau a Rennir sy'n galluogi'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru i gaffael a rheoli perfformiad gwasanaethau o dan y safonau, costau, telerau, ac amodau contract y cytunwyd arnynt yn flaenorol mewn modd sy'n unol â Rheoliadau Caffael y DU a'r UE a Chyfarwyddiadau Ariannol a Rheolau Sefydlog Byrddau Iechyd Lleol.

10. Er mwyn lleihau dyblu ymdrech Darparwyr wrth ddelio â'r Ymddiriedolaeth a/neu'r Bwrdd Iechyd, mae gan GIG Cymru drefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd, perfformiad a rheoli contractau ar y cyd. Cafodd y swyddogaeth hon ei chyflawni drwy Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol Gwasanaeth Iechyd Cymru (NCCU) a gynhelir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

11. Mae Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol GIG Cymru yn rheoli darparwyr Fframwaith Cenedlaethol drwy'r canlynol;

- Herio perfformiad is na'r disgwyl gan ddarparwyr, a chyngori ar wella drwy adolygiadau sicrwydd ysbytai;
- Casglu a dadansoddi gwybodaeth rheoli perfformiad yn unol â manylebau, safonau, ac amodau contract y Fframwaith Cenedlaethol, drwy'r System Comisiynu Gofal, Sicrwydd a Pherfformiad;

- Sicrhau bod darparwyr yn lleihau risgiau a dibyniaeth ac yn hyrwyddo gobaith, gwellhad ac adsefydlu;

- Sicrhau y caiff yr holl wasanaethau caffael eu darparu a'u bod yn cynnig gwerth am arian;

- Sicrhau y caiff pryderon ynglŷn â diogelwch ac ansawdd y darparwr eu codi, eu trafod a'u rhannu â chomisiynwyr ac asiantaethau statudol;

- Hwyluso cydweithredu rhwng darparwyr a chomisiynwyr i sicrhau gofal diogel ac effeithiol o ansawdd uchel sy'n gwella profiad y cleifion.

12. Caiff adolygiadau sicrwydd ysbytai eu cynnal gan Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol GIG Cymru, ac maent yn cynnwys cael sicrwydd bod y darparwr yn cydymffurfio â holl ofynion y Fframwaith Cenedlaethol, yn cynnal y safonau clinigol gofynnol, ac yn sicrhau bod arferion clinigol da yn sail i ofal clinigol

13. Bydd y wybodaeth a gesglir o'r adolygiadau hyn a'r System Comisiynu Gofal, Sicrwydd a Pherfformiad yn cael ei rhannu ag AGIC.

**Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys**

14. Yn unol â Rheoliadau'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (Cymru) 2014 (2014 Rhif 08), gwnaeth y Byrddau Iechyd Lleol sefydlu Cyd-bwyllgor, a ddechreuodd ar 1 Ebrill 2014, at ddibenion arfer ei Swyddogaethau Dirprwyedig ar y cyd a darparu'r Gwasanaethau Perthnasol.

15. Mae'r Cyd-bwyllgor wedi'i sefydlu mewn perthynas â'r Cyfarwyddiadau a'r Rheoliadau i alluogi'r saith Bwrdd Iechyd Lleol yn GIG Cymru i wneud penderfyniadau ar y cyd o ran adolygu, cynllunio, caffael a monitro perfformiad Gwasanaethau Ambiwlans Brys (gwasanaethau perthnasol), y Gwasanaeth Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys (EMRTS) a'r Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys yn unol â'u Swyddogaethau Dirprwyedig diffiniedig.

16. Mae Byrddau Iechyd Lleol yn gyfrifol am y bobl hynny sy'n byw yn eu hardaloedd. Er bod y Cyd-bwyllgor yn gweithredu ar ran y saith Bwrdd Iechyd wrth ymgymryd â'i swyddogaethau, mae'r ddyletswydd ar y byrddau iechyd unigol yn parhau, a nhw, yn y pen draw, sy'n atebol i ddinasyddion a rhanddeiliaid eraill am ddarparu gwasanaethau ambiwlans brys i drigolion yn eu hardal.

17. Mae'r Tîm Gwasanaethau Ambiwlans Brys, fel rhan o'r Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol yn gweithio drwy wneud y canlynol:

- Herio perfformiad darparwyr a chynghori ar wella drwy'r trefniadau comisiynu (Is-Grwpiau Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys)

- Casglu a dadansoddi gwybodaeth rheoli perfformiad yn unol â Dangosyddion Ansawdd Ambiwlans a'r Fframweithiau Ansawdd a Darparu ar gyfer

Gwasanaethau Meddygol Brys a Gwasanaeth Cludo Cleifion Mewn Achosion Nad Ydynt yn Rhai Brys

- Sicrhau y caiff yr holl wasanaethau a gomisiynwyd eu darparu a'u bod yn cynnig gwerth am arian;
- Sicrhau y caiff pryderon ynglŷn â diogelwch ac ansawdd y darparwr eu codi, eu trafod a'u rhannu â chomisiynwyr ac asiantaethau statudol;
- Hwyluso cydweithredu rhwng darparwyr a chomisiynwyr i sicrhau gofal diogel ac effeithiol o ansawdd uchel sy'n gwella profiad y cleifion.

## Egwyddorion cydweithredu

18. Mae AGIC a'r Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol yn cydnabod eu priod gyfrifoldebau a swyddogaethau statudol ac anstatudol, a byddant yn ystyried y rhain wrth gydweithio â'i gilydd.

19. Wrth roi'r cytundeb hwn ar waith, bwriad AGIC a'r Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol yw y caiff eu cydberthynas waith ei nodweddu gan yr egwyddorion canlynol:

    - yr angen i wneud penderfyniadau sy'n diogelu ac yn hybu gofal iechyd o ansawdd uchel ac sy'n hybu iechyd, diogelwch a lles cleifion;
    - bod yn gwbl agored a sicrhau tryloywder rhwng y ddau sefydliad o ran pryd yr ystyrir bod cydweithredu yn angenrheidiol neu'n briodol a phryd nad ystyrir bod cydweithredu yn angenrheidiol nac yn briodol;
    - parch at statws annibynnol y naill sefydliad a'r llall;
    - yr angen i ddefnyddio adnoddau a gwybodaeth yn effeithiol ac yn effeithlon drwy gydlynu a rhannu gwybodaeth yn briodol;
    - yr angen i gynnal hyder y cyhoedd yn y ddau sefydliad;
    - ymrwymiad i fynd i'r afael ag unrhyw achos o orgyffwrdd neu fylchau a nodwyd yn y fframwaith rheoleiddio a chyfrifoldebau rheoleiddio.

20. Mae AGIC a'r Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol hefyd yn ymrwymedig i fabwysiadu dulliau rheoleiddio tryloyw, atebol, cymesur a chyson sydd wedi'u targedu (egwyddorion gwell rheoleiddio).

## Meysydd Gwaith a Blaenoriaethau ar y Cyd

### Cyfnewid Gwybodaeth

21. Bydd cydweithio rhwng AGIC a'r Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol yn aml yn gofyn am gyfnewid gwybodaeth. Mae cyfnewid gwybodaeth i'w ddisgwyl ond ni fydd yn gyfyngedig i achosion lle mae AGIC neu'r Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol yn nodi pryderon am iechyd a lles y

cyhoedd, neu lle y byddai ateb i bryder yn elwa ar ymateb amlasiantaethol cydgysylltiedig.

22. Yn benodol, bydd AGIC yn cyfeirio'r canlynol at yr Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol:

- Unrhyw wybodaeth berthnasol am achos rheoleiddiol o ddiffyg cydymffurfio gan ddarparwr fframwaith yr Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol.
- Unrhyw bryder neu wybodaeth berthnasol am ddarparwr fframwaith yr Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol neu ran o'r sefydliad hwnnw sy'n codi amheuon ynghylch ei addasrwydd i ddarparu gofal i grŵp defnyddwyr penodol.
- Unrhyw bryderon a gwybodaeth berthnasol am ddarparwr fframwaith yr Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol y gellir amau cadernid ei systemau i gefnogi a chynnal diogelwch defnyddwyr y gwasanaeth.

23. Yn benodol, bydd yr Uned Gomisiynu Cydweithredol Genedlaethol yn cyfeirio'r canlynol at AGIC:

- Unrhyw bryderon a gwybodaeth berthnasol am ddarparwr fframwaith yr Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol yng Nghymru sy'n codi amheuon ynghylch ansawdd y gofal a'r gwasanaeth a ddarperir ganddo.
- Unrhyw wybodaeth nad yw'n enwi cleifion mewn perthynas â digwyddiadau, diogelu a chwynion a gesglir fel rhan o ofynion gwybodaeth y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer darparwyr fframwaith yng Nghymru.
- Unrhyw wybodaeth berthnasol am achos rheoleiddiol o ddiffyg cydymffurfio gan ddarparwr fframwaith yr Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol.

24. Mewn achosion o'r fath, bydd pob achos o gyfnewid gwybodaeth yn gyfreithlon ac yn gymesur, a rhennir y wybodaeth yn gyfrinachol â'r cyswllt a enwir yn y sefydliad arall cyn gynted â phosibl.

25. Bydd yr holl drefniadau o ran cydweithio a chyfnewid gwybodaeth a nodir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, ac unrhyw brotocol gweithio ar y cyd a all gael ei ddatblygu, yn ystyried ac yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), Deddf Diogelu Data 2018; Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000; Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003; adran 76 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008; Deddf Safonau Gofal 2000 a holl ddeddfwriaeth AGIC ac Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol GIG Cymru (NCCU) sy'n ymwneud â'r materion hyn, a'u priod Godau Ymarfer, fframweithiau neu bolisïau eraill sy'n ymwneud â gwybodaeth bersonol gyfrinachol a materion gwybodaeth.

26. Mae AGIC a'r Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol yn ddarostyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Os bydd y naill sefydliad yn cael cais am wybodaeth a ddeilliodd o'r llall, bydd y sefydliad sy'n cael y cais yn ei drafod â'r llall cyn ymateb.

**Rhannu gwybodaeth yn rheolaidd**

27. Bydd AGIC a'r Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn rheolaidd sy'n codi o'u gweithgarwch rheoleiddio a all gynorthwyo'r ddau ohonynt yn eu cylch gwaith. Bydd hyn yn cynnwys ymateb yn gadarnhaol i geisiadau am wybodaeth mewn modd amserol. Dim ond ar gyfer lleoliadau a gwasanaethau sy'n berthnasol i waith yr Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol y mae'r gwaith o rannu hyn, e.e. ysbytai annibynnol, preifat, yng Nghymru.

28. Caiff y gwaith rheolaidd o rannu gwybodaeth ei wneud drwy fynediad priodol i AGIC at y system CCAPS. Bydd AGIC yn rhannu unrhyw hysbysiadau perthnasol a ddaw i law yn fisol, a gall yr Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol wneud ceisiadau ad hoc ychwanegol drwy gysylltu â blwch post Partneriaethau, Gwybodaeth a Methodoleg, gweler Atodiad B.

29. Yn ogystal â rhannu hysbysiadau a phryderon, bydd AGIC yn rhannu cynlluniau arolygu â'r Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol yn rheolaidd. Gwneir hyn er mwyn sicrhau y caiff cyfleoedd i weithio ar y cyd eu hystyried. Bydd AGIC hefyd yn ceisio rhoi rhybudd o dri mis i'r Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol am arolygiadau sydd i ddod.

30. Bydd y cyfrifoldeb am ddefnydd priodol o wybodaeth o system CCAPS gan staff AGIC yn rhan o gylch gwaith Perchennog Asedau Gwybodaeth AGIC. Caiff cyngor ei ddarparu gan y Perchennog Asedau Gwybodaeth ar sut yr eir i'r afael ag unrhyw wybodaeth a rannwyd rhwng y ddau sefydliad os bydd angen

**Y Cyfryngau a Chyhoeddiadau**

31. Bydd AGIC a'r Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol yn ceisio rhoi digon o rybudd a gwybodaeth i'w gilydd am unrhyw gyhoeddiadau a gynllunnir i'r cyhoedd ar faterion sy'n berthnasol i'r ddau sefydliad, gan gynnwys rhannu cyhoeddiadau a chynigion drafft.

32. Bydd AGIC a'r Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol yn ymrwymo i weithio gyda'i gilydd, lle y bo'n briodol, i gynhyrchu gohebiaeth neu ddatganiadau ar y cyd sy'n tynnu sylw at gydweithio neu weithgareddau sy'n berthnasol i'r ddau sefydliad.

33. Bydd AGIC a'r Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol yn parchu cyfrinachedd unrhyw ddogfennau a rennir cyn iddynt gael eu cyhoeddi ac ni fyddant yn ymddwyn mewn ffordd a fyddai'n arwain at gyhoeddi cynnwys y dogfennau hynny cyn y dyddiad cyhoeddi a gynlluniwyd.

## Llywodraethu

34. Bydd cyswllt rheolaidd, naill ai'n ffurfiol neu'n anffurfiol, yn ategu effeithiolrwydd y gydberthynas waith rhwng AGIC a'r Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol. Mae'r cyswllt hwn ac unrhyw waith partneriaeth rheolaidd wedi'i nodi yn Atodiad A.

35. Dylid cynnal cyfarfodydd rhwng cydweithwyr perthnasol yn y ddau sefydliad i drafod gwybodaeth, polisïau a materion gweithredol sydd o ddiddordeb i'r ddau sefydliad pan fo'n briodol; o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Ceir manylion cyswllt perthnasol ar lefel weithredol y ddau sefydliad yn Atodiad B.

36. Fel arfer caiff unrhyw anghytundeb rhwng AGIC a'r Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol ei ddatrys ar lefel gweithio. Os nad yw hyn yn bosibl, caiff ei ddwyn at sylw rheolwyr y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a nodir yn Atodiad B, a all ei uwchgyfeirio wedyn, fel y bo'n briodol, o fewn y ddau sefydliad er mwyn sicrhau datrysiad sy'n foddhaol i'r ddau sefydliad. Dylai'r ddau sefydliad anelu at ddatrys unrhyw anghydfod o fewn amser rhesymol.

## Hyd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn a'i adolygu

37. Mae'r ddau sefydliad wedi nodi unigolyn sy'n gyfrifol am y gwaith o reoli'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn Atodiad B. Byddant yn cydgysylltu yn ôl yr angen er mwyn sicrhau bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn gyfredol, yn nodi unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg ac yn ateb unrhyw gwestiynau sy'n codi mewn perthynas â chydberthynas waith y ddau sefydliad.

38. Nid oes cyfyngiad amser i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn a bydd yn parhau mewn grym oni fydd angen newid yr egwyddorion a ddisgrifiwyd neu os byddant yn amherthnasol bellach. Caiff y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn ei adolygu bob blwyddyn gan reolwyr y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a nodir yn Atodiad B, ond gellir hefyd ei adolygu ar fyrder ar unrhyw adeg ar gais y naill sefydliad neu'r llall.

**Llofnodwyd**



**Alun Jones**

Prif Weithredwr Dros Dro

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Dyddiad: 27/07/2020



**Mr Stephen Harrhy**

Rheolwr Gyfarwyddwr yr Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol a Phrif Gomisiynydd Ambiwlans Cymru

Yr Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol

Dyddiad:

## Atodiad A – Gweithio mewn Partneriaeth

Er bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn nodi egwyddor arweiniol rhannu gwybodaeth a digwyddiadau, mae rhai gweithgareddau penodol hefyd a fydd yn hwyluso'r bartneriaeth rhwng AGIC a'r Uned Gomisiynu Cydweithredol Genedlaethol.

**Gweithgareddau ymgysylltu rheolaidd**

Bydd cynrychiolwyr o AGIC a'r Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol yn cyfarfod yn chwarterol i drafod unrhyw faterion neu bryderon penodol sydd ganddynt o bosibl ynglŷn â lleoliadau neu ddigwyddiadau penodol. Bydd y gweithgarwch ymgysylltu hwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Rhannu gwybodaeth am bryderon neu ddigwyddiadau penodol sy'n berthnasol i'r sefydliad arall
- Trafod achos rheoleiddiol o ddiffyg cydymffurfio gan leoliadau sy'n rhan o gylch gwaith y ddau sefydliad
- Trafod unrhyw beth a ddysgwyd ar y cyd o adolygiad CCAPS a hysbysiadau rheoleiddiol 30/31
- Hwyluso'r broses o gydgynllunio gweithgarwch arolygu, ymchwilio ac adolygu
- Trafod unrhyw ddigwyddiadau a godwyd gan y naill sefydliad neu'r llall
- Risgiau, pwysau a digwyddiadau Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru sy'n berthnasol i'r Comisiwn Gwasanaethau Ambiwlans Brys

## Atodiad B – Manylion Cyswllt

| Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru | Yr Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru<br>Parc Busnes Rhydycar<br>Merthyr Tudful<br>CF48 1UZ | Uned 1, Charnwood Court<br>Heol Billingsley<br>Parc Nantgarw<br>Caerdydd<br>CF15 7QZ |
| Ffôn: 0300 062 8163 | Ffôn: 01443 744928 |

Mae enwau cyswllt AGIC a'r Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol fel a ganlyn:

| **Prif Swyddogion Gweithredol** | |
|---|---|
| **Alun Jones**<br><br>*Prif Weithredwr Dros Dro*<br>Aun.Jones39@gov.wales | **Stephen Harrhy**<br><br>*Rheolwr Gyfarwyddwr yr Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol a Phrif Gomisiynydd Ambiwlans Cymru*<br>Stephen.Harrhy@wales.nhs.uk |

| **Rheolwyr y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth** | |
|---|---|
| **Joseph Wilton**<br><br>*Pennaeth Partneriaethau, Gwybodaeth a Methodoleg*<br>joseph.wilton@gov.wales<br><br>Ffôn: 0300 025 2663 | **Dawn Painter**<br><br>*Pennaeth Cydymffurfiaeth ar gyfer Fframweithiau Cenedlaethol Masnachol*<br>Dawn.Painter@wales.nhs.uk<br><br>Ffôn: 01443 744928<br><br>Ross Whitehead<br>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Rheoli Perfformiad ac Ansawdd<br>Ross.whitehead@Wales.nhs.uk<br><br>Ffôn: 01443 744955 |
| **Ceisiadau Gwybodaeth** | |
| hiw.pim@gov.wales<br><br>Ffôn: 0300 062 8163 | GIG.NCCU@wales.nhs.uk<br><br>Ffôn: 01443 744928 |